STORIO, DEFNYDDIO, CADW A DINISTRIO DATGANIADAU

A GWYBODAETH DATGANIAD YN DDIOGEL

1. Cefndir

Rhaid i pob sefydliad sy'n defnyddio Gwasanaeth Datganiad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) i asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi, ac sy'n derbyn gwybodaeth Datganiad, gydymffurfio yn llwyr gyda Chôd Ymarfer y CRB.

Mae'r Côd yn gosod cyfrifoldeb ar y sefydliadau hyn i ddarparu polisi ysgrifenedig ar y modd cywir i ddefnyddio a storio gwybodaeth Datganiad. Bydd yr egwyddorion canlynol o fewn y polisi hwn yn sicrhau ein bod yn dilyn y Côd o'r safbwynt yma.

2. Cyfrifoldebau

Egwyddorion Cyffredinol:

Fel sefydliad sy'n defnyddio Gwasanaeth Datganiad y CRB i asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi, mae Tir Coed yn cydymffurfio Chôd Ymarfer y CRB parthed defnydd, storio, cadw a dinistrio Datganiadau a gwybodaeth Datganiad yn ddiogel.

Mae Tir Coed yn cydymffurfio yn llwyr a gofynion y Ddeddf Gwarchod Data a deddfwriaeth arall perthnasol am ddefnyddio, storio, cadw a dinistrio gwybodaeth Datganiad yn ddiogel, ac mae ganddo bolisi ysgrifenedig i'r perwyl hwn sydd ar gael i unrhyw un sydd yn gofyn am ei weld.

3. Côd Ymarfer Tir Coed

- **Storio**: Ni chedwir gwybodaeth Datganiad ar ffeil personel yr ymgeisydd, ond yn hytrach fe'i cedwir ar wahan ac yn ddiogel, o dan glo, mewn cwpwrdd na ellir ei symud, allan o gyrraedd pawb ar wahan i'r rhai hynny sydd a hawl i'w weld fel rhan o'i gwaith.

- **Defnydd**: Yn ôl gofynion adran 124 o Ddeddf yr Heddlu 1997, ni rennir gwybodaeth Datganiad ond gyda'r rhai hynny sydd a hawl i'w weld fel rhan o'i gwaith.

- Bydd Tir Coed yn cadw cofnod o bawb sydd yn derbyn gwybodaeth am Ddatganiad neu gwybodaeth Datganiad ac mae Tir Coed yn cydnabod ei bod yn **drosedd** i drosglwyddo y wybodaeth yma i unrhyw un nad yw'n gymwys i dderbyn y wybodaeth.

- **Defnydd**: Defnyddir gwybodaeth Datganiad ar gyfer y pwrpas penodedig y gwnaed cais amdano ac yn ôl y caniatad llawn a roddir gan yr ymgeisydd.

- **Cadw**: Pan mae'r penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad arall perthnasol) wedi ei wneud, ni fydd Tir Coed yn cadw gwybodaeth Datganiad am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol. Yn gyffredinol bydd hyn am gyfnod hyd at chwe mis, i alluogi ystyriaeth neu benderfyniad ar unrhyw anghydfod neu achwyniad.

- Os, oherwydd amgylchiadau eithriadol, y bydd angen cadw gwybodaeth Datganiad am yn hirach na chwe mis, bydd Tir Coed yn gofyn barn y CRB am hyn. Bydd y CRB yn rhoi ystyriaeth llawn i ofynion rhannu testun unigolyn Gwarchod Data a Hawliau Dynol cyn rhoi caniatad.

- **Dinistrio**: Pan mae'r cyfnod cadw drosodd, bydd Tir Coed yn sicrhau bod gwybodaeth Datganiad yn cael ei ddinistrio ar unwaith mewn modd diogel, h.y. trwy ei falu neu ei losgi.

- Tra'n aros i gael ei ddinistrio, ni chedwir gwybodaeth Datganiad mewn storfa na ellir ei gloi (e.e bin sbwriel neu sach gwastraff cyfrinachol).

- Ni fydd Tir Coed yn cadw unrhyw llungopi na ffurf arall o lun o'r Datganiad nac unrhyw gopi neu nodyn o gynnwys y Datganiad.

- Er hynny, tra'n gwarchod yr uchod, bydd Tir Coed yn cadw cofnod o ddyddiad cyhoeddi'r Datganiad, enw'r testun, y math o Ddatganiad y gwnaed cais amdano, y swydd y gwnaed cais am Ddatganiad ar ei gyfer, rhif cyfeirnod y Datganiad a manylion y penderfyniad recriwtio.